



Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau plant ac oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) ym mis Mehefin 2022.

Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth iddo ymarfer ei ddyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Ceisiwn ateb y cwestiynau canlynol a osodwyd gan egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf).

1. Pobl – llais a rheolaeth

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod y gweithlu'n ddigonol o ran niferoedd, yn meddu ar y sgiliau a'r profiad addas, ac yn cael ei gefnogi'n briodol?

2. Atal

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau, ac yn atal cynnydd yn yr angen wrth sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl i bobl yn cael eu cyflawni?

Pa mor ymatebol yw'r awdurdod lleol i amgylchiadau newidiol pobl?

3. Llesiant

Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

4. Partneriaethau

Pa mor dda y gall yr awdurdod lleol sicrhau ei hun bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cwbl integredig a chynaliadwy o safon uchel i bobl?

Pa mor dda y mae cynlluniau strategol yn dylanwadu ar arferion a datblygiad o fewn y gwasanaeth?

Bu'r arolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol ar gyfer helpu ac amddiffyn pobl. Roedd cwrdd yr arolygiad yn cynnwys

gwasanaethau oedolion a phlant:

- gwerthusiad o brofiad pobl a'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni wrth ymwneud â gwasanaethau
- tystiolaeth bod yr awdurdod lleol a phartneriaid wedi dysgu gwersi o'u profiadau diweddar a bod ganddynt gynlluniau ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau
- ystyried sut mae'r awdurdod lleol yn rheoli cyfleoedd a risg wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar lefelau unigol, gweithredol a strategol

1. Crynodeb

1.1 Fel gyda llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae CBSW wedi wynebu heriau mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol plant a gofal cymdeithasol i oedolion, ac yn parhau i wneud hynny. Mae llawer o'r pwysau a wynebir yn CBSW yn adlewyrchu cyd-destun adferiad o bandemig COVID-19, gan gynnwys lefelau uchel o alw a mwy o gymhlethdod o ran anghenion pobl. Mae diffygion critigol yn y gweithlu mewn perthynas â recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol, ac absenoldeb staff, wedi arwain at golli staff profiadol ac at farchnad gystadleuol a gorddibyniaeth ar weithwyr cymdeithasol asiantaeth a gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso. Cydnabyddir bod y pandemig hefyd wedi chwyddo pwyntiau straen gwasanaeth a oedd yn bodoli eisoes, megis argaeledd gofal cartref a therapi galwedigaethol.

1.2 Nodwyd diffygion sylweddol yn y gwasanaeth a phryderon ynghylch gallu gwasanaethau plant CBSW i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant plant a theuluoedd agored i niwed ym mis Tachwedd 2019. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn destun trefniadau monitro perfformiad AGC ers hynny. Yn ystod ein harolygiad o wasanaethau plant ym mis Tachwedd 2021, nodwyd meysydd yr oedd angen eu gwella'n barhaus ac mae'r canfyddiadau hyn wedi llywio'r arolygiad presennol.

1.3 Ers 2021, mae'r awdurdod lleol wedi parhau i roi ar waith cynllun gweithredu Bwrdd Gwella Carlam, a ddatblygwyd i ysgogi'r newid y mae ei angen i wella cysondeb ac ansawdd gwasanaethau plant CBSW. Gwelsom fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, gan arwain at ddatblygiadau i ymarfer a chanlyniadau gwell i blant. Mae uwch-arweinwyr, rheolwyr a gwleidyddion wedi ymrwymo'n gadarn ac yn gweithio'n frwd i sicrhau newid cadarnhaol, ac maent yn realistig o ran y camau parhaus a'r adnoddau y mae eu hangen i sefydlu gwasanaeth sy'n cydymffurfio ac yn uchelgeisiol canolbwyntio ar y plentyn ac yn hyrwyddo llesiant plant.

1.4 Mae'r penodi llwyddiannus i swyddi uwch-reolwyr wedi helpu i greu'r momentwm y mae ei angen i ddechrau'r newid diwylliant yn y gwasanaethau plant ac i godi disgwyliadau'r gwasanaeth a'r safonau. Mae gan uwch-bennaeth y gwasanaeth plant drosolwg clir ar

faterion gweithredol ac mae mewn sefyllfa dda i symud y gwasanaeth yn ei flaen gyda chefnogaeth barhaus Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

1.5 Mae'r awdurdod lleol wedi gweithredu i ad-drefnu rhai o'i wasanaethau drwy greu Tîm Ymyrraeth Deuluol gyda'r nod o reoli'r holl blant sydd â chynlluniau gofal a chymorth, gan ryddhau capasiti i dimau eraill ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, amddiffyn plant a/neu achosion llys. Yn ddiweddar, mae CBSW wedi comisiynu tîm a reolir o weithwyr cymdeithasol asiantaeth i ddarparu cymorth ychwanegol i'r timau hynny sy'n wynebu'r pwysau mwyaf, sef y Tîm Cymorth i Deuluoedd a'r Tîm Asesu ac Ymyrryd. Mae defnyddio staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag wedi helpu i leihau amhariad ar y gwasanaeth, ond nid oes gan rai plant a theuluoedd weithiwr cymdeithasol penodedig neu gyson o hyd.

1.6 Mae'r awdurdod lleol yn ymateb yn dda i bryderon diogelu uniongyrchol ond mae angen cryfhau arferion diogelu yn dilyn y cam ymyrryd cychwynnol. Er gwaethaf rhai meysydd o gynnydd cydnabyddedig, nid yw plant a phobl ifanc yn ddigon canolog ymhob ymarfer. Gwelsom dystiolaeth o weithwyr proffesiynol yn y tîm diogelu yn gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr o'r bwrdd iechyd lleol a'r heddlu, yn ogystal â thimau ehangach yr awdurdod lleol, i amddiffyn oedolion a phlant sy'n wynebu risg.

1.7 Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu gweledigaeth strategol glir ar gyfer gwasanaethau plant sydd i'w rhannu gyda phartneriaid. Canfu'r arolygwyr fod yr arferion presennol yn parhau i fod yn anghyson, bod angen cynnal cyflymder y gwelliant, a bod angen cymryd y cyfleoedd i gyflymu lle mae hyn yn caniatáu newid cynaliadwy. Mae meysydd allweddol o hyd lle mae dal angen gweithredu i sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gyson ac yn gwneud gwir wahaniaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i gymryd camau pendant i gyflawni'r gwelliannau gofynnol ac i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ac ymatebol.

1.8 Yng ngwasanaethau oedolion, mae lleisiau'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu clywed. Fodd bynnag, canfuom hefyd rai bylchau mewn arferion gwaith cymdeithasol lle nad yw canlyniadau'n cael eu hystyried a'u dogfennu'n llawn, ac nid yw effaith bod yn ofalwr yn cael ei chydabod bob amser. Mae diffyg chwilfrydedd proffesiynol, dadansoddi a chofnodi yn golygu efallai na fydd pobl bob amser yn cael y gwasanaethau o ansawdd y mae ganddynt hawl iddynt.

1.9 Oherwydd y pwysau ar ddarpariaeth gofal uniongyrchol, nid yw'r awdurdod lleol yn gallu manteisio ar gyfleoedd i wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl ac atal eu hanghenion rhag gwaethygu. Gwelsom enghreifftiau o bobl yn methu â chael gafael ar y gofal y mae arnynt ei angen ac yn gorfod symud i gartref gofal am gyfnod amhenodol. Mae hyn yn amlwg yn cael effaith negyddol ar bobl ac ar forâl y staff sy'n asesu pobl ac yn gwybod nad oes gofal ar gael. Mae yna hefyd restrau aros ar gyfer asesiadau therapi galwedigaethol sydd wedi bod yn hirsefydlog.

1.10 Mae llawer o enghreifftiau cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth ar lefel weithredol, gan gynnwys fforymau amlddisgyblaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau am ymarfer. Rydym yn ymwybodol bod gwahanu oddi wrth dimau iechyd meddwl cymunedol ar y gweill gyda'r tîm llesiant wedi'i greu i ganolbwyntio ar fodel llesiant mwy cyfannol. Mae grwpiau cymorth yn cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid trydydd sector. Bydd angen gwerthuso effaith hyn ar bobl CBSW, ac ar weithio mewn partneriaeth.

1.11 Er ein bod yn cydnabod bod rhai heriau'n cael eu hwynebu ledled Cymru, mae angen gwneud rhagor o waith yn y gwasanaethau oedolion, fel sydd wedi'i wneud yn y gwasanaethau plant, i sicrhau bod datblygiadau strategol a gweithredol yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn gallu cael y gwasanaeth cywir ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, yn ogystal â sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio'n gyson i egwyddorion y Ddeddf. Rydym yn ymwybodol bod y prif weithredwr a'r cyfarwyddwr yn cydnabod y meysydd y mae angen eu gwella a'u bod yn recriwtio uwch-bennaeth i'r gwasanaethau oedolion i ganolbwyntio ar gryfhau a rhoi sefydlogrwydd i wasanaethau er budd yr oedolion sydd angen gofal a/neu gymorth.

Prif ganfyddiadau a thystiolaeth – Gwasanaethau plant

Rydym yn cyflwyno ein prif ganfyddiadau a thystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014. Gall gwelliannau a oedd yn ofynnol mewn adroddiadau blaenorol AGC hefyd ymddangos yn yr adroddiad hwn i bwysleisio'u perthnasedd a'u pwysigrwydd ar hyn o bryd.

2. Egwyddor: Pobl

Cryfderau:

2.1 Mae sicrhau bod gweithlu sefydlog a digonol sy'n meddu ar sgiliau a phrofiad addas yn parhau i fod yn her mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, mae uwch-reolwyr, gan gynnwys y Pennaeth Gwasanaeth, wedi bod yn rhagweithiol wrth lunio cynllun rheoli risg i fynd i'r afael â'r diffyg sylweddol o ran staffio.

2.2 Mae ymarferwyr yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed. Gwelsom rai enghreifftiau mewn cofnodion gofal cymdeithasol, lle'r oedd iaith, cyfathrebu a lefel aeddfedrwydd emosiynol a datblygiadol yn cael eu hystyried a'u harchwilio i gael/hwyluso barn plant.

2.3 Mae rhai plant wedi elwa ar gyfleoedd i ddatblygu perthynas â'u gweithiwr cymdeithasol. Gwelsom rai enghreifftiau da o waith uniongyrchol i sefydlu dymuniadau a theimladau'r plant. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus yn y maes hwn a dywedasant fod pwysigrwydd gwaith uniongyrchol yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi.

2.4 Mae'r awdurdod lleol yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol o eiriolaeth. Roedd y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw, a'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys mewn cofnodion gofal cymdeithasol, yn dangos ei fod yn ystyried hawliau plant i gael cynnig

eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae'r staff yn gwerthfawrogi'r Tîm Ymyrraeth Deuluol a grëwyd yn ddiweddar, a'r 'tîm a reolir' a gyflwynwyd, ac maent yn eu gweld fel rhywbeth sy'n galluogi i dargedu gwaith ataliol gyda phlant a phobl ifanc. Dylai'r capasiti cynyddol hwn hefyd alluogi staff i gynnal gwell ffocws ar gynllunio gofal a chymorth.

2.5 Mae llesiant, recriwtio a chadw'r gweithlu yn flaenoriaeth allweddol i'r awdurdod lleol. Mae wedi nodi ac yn gweithredu ar faterion a godwyd gan staff ynghylch graddfeydd cyflog ac amodau gwaith presennol ac mae'n adolygu'r cymorth gweinyddol i dimau, gyda'r nod o sefydlogi a chefnogi'r gweithlu. Mae'r awdurdod lleol o'r farn bod hyn yn hanfodol i fusnes, gan ategu ei allu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol ac i sicrhau a chynnal gwelliannau. Dywedodd rhai staff a rheolwyr wrthym fod symud pob tîm i safle newydd wedi gwella morâl staff, cyfathrebu, a chydweithio rhwng timau ac asiantaethau partner.

2.6 Mae'r awdurdod lleol ar hyn o bryd yn ehangu ei ddull o recriwtio a chadw, gyda ffocws ar 'dyfu eich gweithwyr cymdeithasol eich hun' drwy noddi cymwysterau ffurfiol a'r cynnig o gyfleoedd dysgu ymarfer i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol sy'n astudio ym Mhrifysgol Glyndŵr. Mae hyn yn sylfaenol i helpu i fynd i'r afael â materion recriwtio.

2.7 Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau i gynyddu gallu rheolwyr rheng flaen trwy ddatblygu rôl rheolwr tîm cynorthwyol i gryfhau goruchwyliaeth, a throsolwg o reolaeth weithredol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd ein harolwg staff eu bod yn cael cymorth i wneud eu gwaith (89%), gyda 72% yn nodi bod eu llwyth gwaith yn hylaw.

2.8 Dywedodd y staff a gyfwelwyd wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus bod diwylliant mwy agored ac uchelgeisiol yn yr awdurdod lleol. Bu'r staff ac asiantaethau partner yn canmol argaeledd yr uwch-reolwyr. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan reolwyr a oedd yn cydnabod ac yn ceisio rheoli eu pwysau gwaith ac yn gofalu am eu llesiant.

2.9 Mae gwaith wedi dechrau i gryfhau sicrwydd ansawdd, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd perfformiad rheolaidd gyda rheolwyr tîm a phennaeth y gwasanaeth i edrych ar adroddiadau monitro ar gyfer pob tîm. Mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno dull sicrhau ansawdd i nodi meysydd i'w gwella ac adeiladu ar ymarfer cadarnhaol.

Yr hyn y mae angen ei wella:

2.10 Nid oedd rhai plant a theuluoedd yn cael eu clustnodi i weithiwr cymdeithasol mewn modd amserol ac roedd gormod o blant wedi wynebu newid gweithiwr cymdeithasol. Mae hyn yn effeithio ar barodrwydd y teulu i ymgysylltu â'r gwasanaeth ac ar ymddiriedaeth plant a theuluoedd mewn gweithwyr proffesiynol. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gweithlu digonol, cymwysedig a chymwys ar gael i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

2.11 Nid oedd cofnodion gofal cymdeithasol yn dangos bod gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd yn cynnal cyswllt/ymweliadau rheolaidd â phlant yr oedd ganddynt gynllun gofal a chymorth ar waith. Mewn rhai enghreifftiau, roedd yr ymweliadau yn cael eu cynnal gan weithwyr ar ddyletswydd neu weithiwr heb gymhwys. Gall hyn arwain at ddiffyg eglurder ynghylch pwrpas yr ymweliad ar wahân i fonitro. Rhaid i reolwyr sicrhau bod gan staff sy'n ymweld â theuluoedd werthfawrogiad clir o'r sefyllfa, gan gynnwys y risgiau sy'n bresennol,

a bod pwrpas yr ymweliad yn ystyrlon i bawb sy'n gysylltiedig ac yn bodloni gofynion statudol.

2.12 Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd gennym yr angen i wella ansawdd ymarfer gwaith cymdeithasol ar draws yr holl dimau gwaith cymdeithasol. Mae sefyllfa bresennol y gweithlu yn parhau i roi pwysau sylweddol ar reolwyr a staff, sy'n gweithio'n hynod o galed i ateb y galw ac sy'n aml yn gweithio oriau hir. Clywsom fod rhai ymarferwyr yn pryderu bod llwythi achosion uchel oherwydd diffyg staff yn effeithio ar eu gallu i gael yr oruchwyliaeth a ffocws gofynnol ar ganlyniadau a diogelwch pobl. Er bod tystiolaeth o well goruchwyliaeth reolaethol, mae hyn yn parhau i fod yn amrywiol. Rhaid i reolwyr gynnal trosolwg effeithiol o lwythi gwaith, llif gwaith ac ansawdd ymarfer.

2.13 Mae llwythi gwaith rhai gweithwyr cymdeithasol yn effeithio ar eu gallu i dreulio amser penodol gyda phlant. Mae ymgysylltu â theuluoedd yn gosod y sylfeini ar gyfer gwaith uniongyrchol effeithiol sy'n helpu gweithwyr cymdeithasol i ddeall safbwyntiau a phrofiadau plant. Nid yw pob plentyn wedi cael cymorth i ddeall hanes ei fywyd a'r rhesymeg dros y penderfyniadau a wneir yn ei gylch. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol wrthym y byddent bob amser yn ceisio cynorthwyo a chydweithio â phlant a theuluoedd, ond mae'r galw yn aml yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. Rhaid i reolwyr sicrhau bod llwythi achosion yn hylaw, a rhaid i reolwyr ac ymarferwyr fod â'r capasiti i gwblhau eu gwaith, ffurfio perthynas proffesiynol, a gweithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd.

2.14 Mae angen rhagor o waith i helpu i sicrhau bod pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt yn gyson ac yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Cawsom 84 o ymatebion i'n harolwg pobl (pobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu eu cynrychiolwyr). Roedd 45% yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt 'yn anaml' neu 'byth'.

2.15 Mae angen cryfhau'r cyfleoedd i geisio barn plant yn gyson a'u cofnodi'n briodol. Canfuom fod ansawdd y gwaith cofnodi mewn perthynas â chael darlun o lais y plentyn a'i brofiad bywyd yn rhy amrywiol. Nid oedd y cofnodion ysgrifenedig a welwyd bob amser yn cynnwys sut yr oedd y gweithiwr cymdeithasol yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan y plentyn i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a chynllunio. Roedd yr iaith a ddefnyddid yn aml yn adlewyrchu canlyniadau sefydliadol yn hytrach na rhai'r plentyn, er ei bod yn gadarnhaol bod y rheolwyr eu hunain wedi nodi hwn fel maes i'w wella.

2.16 Er bod rhai cofnodion gofal cymdeithasol yn gyfredol, gwelsom enghreifftiau o hyd o fylchau yn y cofnodion a gafodd effaith andwyol ar y ddealltwriaeth o daith y plentyn. Nodwyd sawl achos lle'r oedd gweithiwr cymdeithasol wedi gadael yr awdurdod lleol heb gwblhau cofnod o'i ymweliadau, ac roedd hyn wedi arwain at blant a theuluoedd yn gorfod ailadrodd gwybodaeth yn ogystal â thanseilio'r ddealltwriaeth o risg, gan arwain at oedi yn y cynnydd a wneir. Rhaid i reolwyr sicrhau bod yr holl gofnodion gofal cymdeithasol yn cael eu diweddarau gan staff cyn gadael yr awdurdod lleol.

2.17 Dywedodd ymarferwyr wrthym fod angen cyson i flaenoriaethu eu gwaith a bod gofynion y system electronig yn effeithio'n andwyol ar gwblhau'r cofnodion gofal cymdeithasol gofynnol yn amserol. Rhaid darparu cyfleoedd a chymorth digonol i ymarferwyr i'w galluogi i gofnodi gwybodaeth o ansawdd yn gyson ac mewn modd amserol.

Rhaid i systemau goruchwyllo rheolaethol sicrhau monitro effeithiol o gydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau, ac amserlenni mewn perthynas â gofynion statudol a chofnodi.

2.18 Mae ansawdd goruchwyliaeth ffurfiol ar draws timau yn parhau i fod yn faes i'w wella. Mae goruchwyliaeth yn amserol ar y cyfan, a dywedodd rheolwyr tîm wrthym fod ganddynt systemau i fonitro hyn. Mae angen cynnydd pellach i sicrhau bod goruchwyliaeth yn rhoi amser i weithwyr cymdeithasol fyfyrion ar y cynnydd y maent yn ei wneud ar gyfer plant unigol, a hefyd i roi'r cymorth a'r cyfeiriad ychwanegol y mae eu hangen ar weithwyr yn unol â'u profiad. Nid yw cofnodion goruchwyllo bob amser yn gwneud cyfiawnder ag ansawdd y trafodaethau goruchwyllo a adroddir gan weithwyr cymdeithasol, nac ansawdd y gwaith a welir gan yr arolygwyr.

2.19 Er ei bod yn gadarnhaol bod rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar waith, o ystyried y pwysau ar y gweithlu, mae risg efallai na fydd hyfforddiant yn cael ei flaenoriaethu gan ymarferwyr. Felly mae'n bwysig bod systemau ar waith i sicrhau bod staff yn ddigon gwybodus a medrus i gyflawni'r tasgau y maent yn eu cyflawni, a'u bod yn cael cyfleoedd/modd i ymgymryd â datblygiad proffesiynol, myfyrion, ac ymgorffori dysgu.

3. Egwyddor: Atal

Cryfderau:

3.1 Mae uwch-arweinwyr, rheolwyr a gwleidyddion wedi deall pwysigrwydd cymorth cynnar a gwasanaethau ataliol. Maent yn cydnabod arwyddocâd ymyrraeth gynnar o ran sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt yn gynnar, cyn i sefyllfaoedd gyrraedd pwynt argyfwng. Gwelsom ffocws ar sicrhau bod gwasanaethau'n ddigonol, yn gynaliadwy ac o ansawdd da yn gyson i hyrwyddo canlyniadau da i blant a theuluoedd.

3.2 Mae gwneud penderfyniadau yn y tîm Un Pwynt Mynediad yn brydlon ar y cyfan. Mae gweithwyr cymdeithasol yn ystyried hanes plant ac ymyrraeth blaenorol yr awdurdod lleol yn dda wrth ddadansoddi gwybodaeth gychwynnol. Nodwyd gwelliant o ran trothwyon rhwng ymyrraeth gynnar a gofal cymdeithasol plant yn cael eu cymhwyso yn fwy priodol.

3.3 Roedd ymarferwyr a rheolwyr yn canmol y cyfoeth a'r ystod o wasanaethau cymorth sydd ar gael i weithio gyda phlant a theuluoedd yn CBSW, gan gynnwys Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wreccsam a Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd, yn ogystal â chymorth gan addysg, yn enwedig y gwaith a wneir gan y cydlynnydd addysg plant sy'n derbyn gofal. Gwelsom enghreifftiau o sut yr oedd gwasanaethau ataliol wedi cynorthwyo teuluoedd drwy eu cynorthwyo gyda magu plant, gan roi cyngor ar strategaethau ymarferol a pherthnasoedd. Er gwaethaf lefel uchel o alw, mae rhestrau aros yn fach iawn a dywedwyd wrthym fod gwasanaethau, ar y cyfan, yn gallu ymateb yn brydlon i ddiwallu angen. Mewn un enghraifft, gwelsom sut y cafodd y canlyniadau ar gyfer person ifanc a'i deulu eu gwella'n uniongyrchol drwy ymyriad gan y tîm therapi aml-systemig, sydd wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir y Fflint.

3.4 Mae datblygiadau yn y gwasanaeth maethu yn enghraifft dda o'r awdurdod lleol yn ymateb yn greadigol i rai o'r heriau y mae'n eu hwynebu. Mae creu tair canolfan faethu, gweithwyr cymorth a swyddi ychwanegol, a grwpiau cymorth wyneb yn wyneb ar gyfer gofalwyr maeth yn dangos defnydd arloesol o adnoddau.

3.5 Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn sefydlog. Mae dangosyddion perfformiad yn awgrymu bod yr awdurdod lleol yn gweithio'n galed i gynorthwyo plant i aros o fewn eu teuluoedd, lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol. Clywsom am ffocws a llwyddiant yr awdurdod lleol wrth ddiswyddo gorchmynion gofal, gan sicrhau cynlluniau parhad plant drwy orchmynion gwarcheidiaeth arbennig a gofalwyr sy'n cael eu cefnogi gan dîm penodedig.

Yr hyn y mae angen ei wella:

3.6 Wrth gydnabod yr heriau cenedlaethol sy'n effeithio ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae angen gwaith pellach gan uwch-reolwyr i sicrhau bod eu datblygiadau strategol a gweithredol yn canolbwyntio ar sicrhau y gall pobl gael y gwasanaeth cywir ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn, yn ogystal â sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio'n gyson i Ddeddf 2014.

3.7 Mae'r heriau o ran recriwtio a chadw'r gweithlu yn parhau i effeithio ar allu'r awdurdod lleol i adnabod, asesu a chefnogi cyn gynted â phosibl y teuluoedd sydd angen ymyrraeth. Er bod yr awdurdod lleol yn ymateb i anghenion diogelu uniongyrchol, canfuom rywfaint o oedi a gadael i bethau lithro mewn rhai sefyllfaoedd. Golyga hyn nad yw canlyniadau'r bobl yn cael eu cyflawni mewn modd amserol bob amser. Er enghraifft, disgrifiodd y staff eu rhwystredigaeth bod diffyg staffio weithiau'n arwain at gau'r cysylltiad yn rhy fuan, gan olygu bod plant a theuluoedd yn cael eu hailgyfeirio am gymorth.

3.8 Er bod y defnydd o gronolegau a genogramau wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau cysondeb ac ansawdd y gwaith hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y trosiant presennol yn y gweithlu a phwysigrwydd sicrhau bod gweithwyr yn deall taith y plentyn.

3.9 Mae ymarfer yn parhau i fod yn anghyson mewn asesiadau sy'n mynd i'r afael â phob un o'r pum maes asesu a nodir yn Neddf 2014. Er y gwelwyd rhai asesiadau da, roedd eraill yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig, nid oeddent wedi'u seilio'n ddigonol ar gryfder, ac roedd diffyg dadansoddiad proffesiynol clir, gan gynnwys y risgiau oedd yn bresennol. Nid oedd y cofnodion yn dangos y lefel o chwilfrydedd proffesiynol y mae ei hangen i sicrhau bod y lefel gywir o ymyrraeth barhaus yn cael ei nodi i gynorthwyo'r plentyn a'r teulu.

3.10 Er nad yw'r sgysiau 'yr hyn sy'n bwysig' a gynhaliwyd wedi'u cofnodi'n dda, roedd y rhai gorau a welwyd yn cynnwys geiriau'r plentyn ei hun. Roedd yr ymarfer a ddisgrifiwyd gan y staff yn fwy calonogol, ond yn gyffredinol nid oedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn y cofnod ysgrifenedig yn gyfeillgar i blant. Dywedodd staff wrthym nad yw'r templedi cofnodion electronig yn gydnaws â chasglu gwybodaeth sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio

ar ganlyniadau. Byddent yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at unrhyw newidiadau i'r system yn y dyfodol.

4. Egwyddor: Llesiant

Cryfderau:

4.1 Pan fydd pryderon am blant yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth Un Pwynt Mynediad, mae'r ymateb yn amserol, a gwelsom enghreifftiau o benderfyniadau priodol a wnaed i uwchgyfeirio materion a adroddwyd i ymchwiliadau amddiffyn plant.

4.2 Mae trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth yn amserol ar y cyfan. Rhennir gwybodaeth briodol i lywio penderfyniadau. Mae ymchwiliadau amddiffyn plant dilynol o gymorth wrth wneud penderfyniadau am y camau nesaf. Mae'r templed ar gyfer y cyfarfodydd strategaeth yn darparu awgrymiadau defnyddiol ond nid yw'r cofnod bob amser yn nodi'r rhesymeg dros wneud penderfyniadau. Roedd diffyg argaeledd heddlu wedi achosi oedi i rai plant ond mae cytundeb bellach i dreialu staff heddlu ac addysg o fewn y gwasanaeth yr Un Pwynt Mynediad.

4.3 Mae ymatebion diweddar yr awdurdod lleol wedi cynnwys cyflwyno polisi trothwy newydd i gefnogi cysondeb penderfyniadau prydlon a model ymarfer newydd sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n canolbwyntio ar atebion. Mae uwch-reolwyr wrthi'n ymgorffori systemau perfformiad a sicrhau ansawdd mewnol i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau presennol a gwelliannau parhaus. Bydd cynnydd yng nghapasiti swyddogion adolygu diogelu annibynnol yn cynorthwyo'r agenda hon.

4.4 Mae'r awdurdod lleol yn edrych i wella taith sefydlogrwydd y plentyn ac y mae wedi penodi arweinydd newydd ar gyfer sefydlogrwydd cynnar gyda chyfrifoldeb am adolygu polisïau, mapio ac olrhain taith plant, a gwella hyfforddiant staff, gyda'r nod o sicrhau defnydd mwy cymesur o'r gorchmynion.

4.5 Mae'r awdurdod lleol yn elwa o fod a mwy o swyddogion adolygu a diogelu annibynnol sy'n hyderus a chymwys ac yn herio ymarfer gwael yn gadarnhaol ac yn uwchgyfeirio'r ymarfer hynny. Mae goruchwyliaeth y swyddogion adolygu diogelu annibynnol yn amlwg yng nghofnodion y plant. Soniodd y rheolwyr tîm am werthfawrogi'r sicrwydd ansawdd a roddir gan y swyddogion adolygu diogelu annibynnol. Yr oedd hwn yn faes a oedd wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol.

4.6 Mae ymarferwyr gwasanaethau plant yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o fewn y sefydliad wrth gyfrannu at ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant, ond mae swyddi gwag a llwyth gwaith yn effeithio ar eu gallu i gyflawni hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella:

4.7 Mae ymarfer diogelu yn dilyn y cam ymyrryd cychwynnol yn aml yn fwy darniog gydag elfennau hollbwysig o werthuso risg ar goll. Roedd ansawdd asesu risg yn y gwasanaethau

plant yn amrywio. Mae angen ailffocysu ar asesiad risg i sicrhau cofnod cydlynol a diweddar o amgylchiadau plant fel sail i farn broffesiynol.

4.8 Roedd ansawdd y cynlluniau gofal a chymorth a welwyd yn amrywio. Er bod y rhan fwyaf yn disgrifio'r rhesymau a'r sbardunau a arweiniodd at yr angen am y cynllun, nid oeddent bob amser yn ymdrin â'r risgiau nac yn cynnal ffocws digonol ar brofiad y plentyn. Nid oedd y cynlluniau a welwyd bob amser yn benodol ynghylch yr hyn yr oedd angen ei newid na sut beth oedd newid cadarnhaol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i rieni ac eraill fod yn berchen ar y cynllun a deall yr hyn a ddisgwyli'r ganddynt ac i asesu cynnydd o fewn terfynau amser y plentyn. Nid oedd atebion a gyd-gynhyrchwyd yn amlwg ar hyn o bryd yn y cofnodion gofal cymdeithasol a adolygwyd. Gwelsom enghreifftiau lle byddai plant a theuluoedd wedi elwa ar ymarferwyr yn meddwl yn feirniadol yn fwy cyson ynglŷn â'r potensial ar gyfer niwed, cynlluniau wrth gefn, a'r cymorth ehangach sydd ar gael.

4.9 Roedd tystiolaeth bod swyddogion adolygu diogelu annibynnol yn codi rhybuddion rheolwyr yn briodol, yn enwedig mewn achosion lle'r oedd bwlch yn y dyrannu. Fodd bynnag, nid oedd materion o'r fath bob amser yn cael eu datrys mewn modd amserol. Codwyd enghreifftiau lle nad oedd adroddiadau cynadleddau achos bob amser ar gael i deuluoedd cyn y gynhadledd adolygu amddiffyn, a hefyd diffyg presenoldeb gweithwyr cymdeithasol mewn cyfarfodydd a arweiniodd at eu canslo, gan greu'r potensial i gynlluniau lithro. Oherwydd problemau staffio, nodwyd rhai pryderon mai'r swyddog adolygu diogelu annibynnol oedd y gweithiwr proffesiynol mwyaf cyson i rai plant a theuluoedd.

4.10 Nid oedd gwaith i wella ymarfer cofnodi mewn perthynas â grwpiau o frodyr a chwiorydd wedi gwneud gwahaniaeth eto. Mae'r cyfuniad helaeth o wybodaeth am frodyr a chwiorydd a welir ar y cofnodion achos yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i nodi a deall nodweddion, anghenion, cryfderau a phrofiad unigryw pob plentyn. Yr oedd y graddau y mae gwybodaeth yn cael ei thorri a'i chludo o un ffeil i'r llall yn golygu bod llais unigol y plentyn yn aml yn mynd ar goll. Mewn rhai enghreifftiau, gan gynnwys amddiffyn plant, canfuom orddibyniaeth ar farn ac anghenion oedolion. Rhaid i reolwyr sicrhau bod polisïau ac ymarfer cofnodi mewn perthynas ag anghenion grwpiau o frodyr a chwiorydd yn cael eu hadolygu a bod gwelliannau'n cael eu gwneud i sicrhau ei bod yn haws nodi cryfderau a/neu gefnogaeth pob plentyn yn y cofnod gofal cymdeithasol.

5. Egwyddor: Partneriaethau ac Integreiddio

Cryfderau:

5.1 Roedd yr ymateb a gafwyd gan bartneriaid mewn perthynas â gwasanaethau plant yn gadarnhaol ar y cyfan. Disgrifiodd partneriaid welliannau diweddar mewn diwylliant o fewn gwasanaethau cymdeithasol plant, gyda gwell cyfathrebu agored a pharodrwydd i wrando a chymryd perchnogaeth a mynd i'r afael â materion.

5.2 Clywsom sut y bu uwch-reolwyr gwasanaethau plant yn rhagweithiol wrth ddatblygu offeryn trothwy ar gyfer gwneud penderfyniadau a gweithredu gweithdrefnau uwchgyfeirio fel y gellir mynd i'r afael ag anghytundebau ar unwaith er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

5.3 Mae plant y mae angen eu hamddiffyn ar unwaith yn cael ymateb prydlon gan weithwyr cymdeithasol sy'n helpu i'w cadw'n ddiogel. Caiff hyn ei wella gan gefnogaeth partneriaid, sy'n deall ac yn cymhwyso trothwyon yn briodol.

Yr hyn y mae angen ei wella:

5.4 Er bod ymrwymiad cryf i bartneriaethau effeithiol, disgrifiodd partneriaid a darparwyr sut yr oedd trosiant staff a diffyg parhad gwaith cymdeithasol yn dal i gael effaith andwyol ar gyfathrebu â'r gwasanaeth plant a bod hyn yn rhwystro cynllunio gofal a chymorth effeithiol.

5.5 Mae ymgysylltu â gwasanaethau ieuchyd yn parhau i fod yn her yn y gwasanaeth Un Pwynt Mynediad a chael mynediad at wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth gyda'u hieuchyd meddwl. Fe'n hysbyswyd am restr aros tair blynedd am asesiad heb unrhyw wasanaethau eraill ar gael. Rydym yn ymwybodol bod y materion hyn wedi'u codi rhwng prif weithredwyr y ddau wasanaeth i gael atebion.

Prif ganfyddiadau a thystiolaeth: Gwasanaethau oedolion

6. Egwyddor: Pobl

Cryfderau:

6.1 Yn y gwasanaethau oedolion, mae lleisiau'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu clywed a'u hadlewyrchu'n dda wrth gynllunio gofal a chymorth. Mae'r cynlluniau gofal gorau yn dangos tystiolaeth o gofnodion clir sy'n manylu ar y canlyniadau y gweithir tuag atynt ac mae asesiadau gofal cymdeithasol arbenigol yn ysgogi naratif clir am amgylchiadau pobl. Mae eiriolwyr yn cael eu cynnig ac ar gael i gynorthwyo pobl gyda phenderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau. Roedd yr arolwg staff yn adlewyrchu'n gryf y farn bod hyrwyddo llais oedolion a gofalcwyr yn gryfder yn CBSW.

6.2 Gwelsom daliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig fel mater o drefn ac yn cael eu defnyddio'n gadarnhaol, gydag enghreifftiau o gynorthwywyr personol yn gweithio'n briodol gyda phobl yr oedd eu hanghenion yn gymhleth. Cryfder a nodwyd yn ein harolygiad gwerthuso perfformiad blaenorol yn 2020 yw'r ystyriaeth o alluedd meddyliol person i wneud penderfyniadau. Yn gadarnhaol, mae hyn yn parhau i gael ei ymgorffori mewn ymarfer a'i ddefnyddio ar adegau priodol i lywio penderfyniadau cynllunio gofal. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn cael eu trin â pharch gan yr awdurdod lleol y rhan fwyaf o'r amser.

Yr hyn y mae angen ei wella:

6.3 Gwelsom enghreifftiau cyson o bobl a gofalcwyr yn wynebu oedi sylweddol ac annerbyniol wrth ofyn am gymorth. Dro ar ôl tro, clywsom sut mae diffyg gofal cartref yn effeithio ar ganlyniadau pobl a gallu'r awdurdod lleol i gynorthwyo pobl i gynnal neu adennill eu hannibyniaeth. Nid yw pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau gofal y mae arnynt eu hangen, ac mewn rhai achosion maent yn symud i'r hyn a elwir yn 'gartrefi ymadfer' am gyfnod amhenodol hyd nes y gellir dod o hyd i wasanaeth gofal i'w cynorthwyo gartref. Clywsom enghraifft o rywun yn aros dros ddeuddeg mis mewn cartref am un galwad gofal y

dydd, sy'n codi pryderon ynghylch sut mae diffyg darpariaeth gwasanaeth yn effeithio ar hawliau dynol pobl, eu gallu i wneud dewisiadau, a sut y caiff anghenion pobl eu hadolygu.

6.4 Dywedodd ymarferwyr wrthym eu bod ar adegau mewn sefyllfa ddigalon o ran cwblhau asesiadau, gan wybod yn llwyr efallai na fyddant yn gallu darparu'r gofal a chymorth cywir. Amlygwyd rhwystredigaeth ganddynt ynghylch y ddibyniaeth gynyddol ar leoliadau preswyl neu ofalwyr yn gorfod 'gwneud y gorau' nes y gellir dod o hyd i becynnau gofal. Ategwyd y canfyddiadau hyn gan ein harolwg pobl, a ddangosodd fod pobl yn ymwybodol o'r diffyg adnoddau yn y sir. Rydym yn cydnabod y gwaith a wnaed gan yr awdurdod lleol i archwilio opsiynau eraill megis datblygu modelau micro gomisiynu. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod datblygiadau strategol a gweithredol yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yn cael y gofal a chymorth cywir, yn y lle iawn ac ar yr amser iawn.

6.5 O'r cofnodion a adolygwyd, roedd yn anodd i ni nodi cynigion diamwys o asesiadau gofalwyr neu gymorth i ofalwyr. Roedd ymarferwyr yn cydnabod bod y pwysau ar ofalwyr wedi dod yn fwy aciwt oherwydd rhestrau aros parhaus a diffyg gofal cartref, ond nid oedd yn glir sut yr oedd hyn yn trosi'n gynigion o gymorth i ofalwyr. Maes i'w wella yn ein harolygiad blaenorol oedd diwallu anghenion gofalwyr a chynnig asesiadau gofalwyr yn benodol yn unol â dyletswyddau statudol. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu rôl gofalwyr arweiniol a rhaid i'r rôl hon sicrhau bod y gwelliant hwn yn cael ei flaenoriaethu.

6.6 Rhaid i uwch-reolwyr gael golwg gyson glir ar arferion rheng flaen a llif gwaith. Nid ydym wedi cael sicrwydd y gall y system ar gyfer graddio'r rhestrau aros yn ôl brys a ffocws rheolaethol yn unig flaenoriaethu'n ddiogel y nifer helaeth o bobl sy'n aros am ofal neu gymorth mewn rhai meysydd o angen, megis asesiad therapi galwedigaethol. Mae angen gallu ar lefel strategol i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau oedolion a all ysgogi gwelliant, wedi'i llywio gan archwiliadau data o ansawdd uchel a sicrwydd ansawdd. Rhaid i arweinwyr ddatblygu ymhellach systemau sicrhau ansawdd a gwybodaeth perfformiad ar gyfer gwasanaethau oedolion fel y maent wedi'i wneud yn y gwasanaethau plant.

7. Egwyddor: Atal

Cryfderau:

7.1 Nid oedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar faes ehangach atal, ond clywsom am fentrau i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol. Gwelsom enghreifftiau o gatalyddion cymunedol yn cefnogi datblygiad micro fentrau ar draws Wrecsam. Y nod yw cynyddu nifer ac ystod yr opsiynau gofal a chymorth cartref sydd ar gael i bobl a gofalwyr trwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol yn greadigol. Enghraifft arall yw 'Pontio'r Bwlch', sy'n cael ei redeg gan wasanaeth gwybodaeth i ofalwyr gogledd-ddwyrain Cymru, NEWCIS, sydd â chynllun seibiant sy'n darparu gofalwyr â chyfnod byr o orffwys o'u rôl gofalu. Er bod y mentrau hyn yn cael eu croesawu gan bobl, clywsom fod y galw yn aml yn fwy na'r capasiti.

7.2 Mae timau adnoddau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bawb o fewn ardal benodol. Dywedodd ymarferwyr wrthym am brofiadau

cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth â'r timau adnoddau cymunedol. Clywsom enghreifftiau o ymatebion cyflym i hybu annibyniaeth pobl ac atal derbyniadau i'r ysbyty.

7.3 Er gwaethaf y galw mawr a'r rhestrau aros am asesiadau therapi galwedigaethol, gwelsom rai enghreifftiau o allu'r gwasanaeth i ymateb yn brydlon. Roedd hyn yn cynnwys darparu rhywfaint o offer i hybu annibyniaeth pobl a'u galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy.

7.4 Clywsom am gynlluniau ynghylch Hwb Lles Wrecsam i alluogi mynediad at wybodaeth a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn ystod o gyfleusterau hygyrch, gan gynnwys cyfleusterau tri lle newid. Mae'r hwb, sydd i fod yn weithredol yn yr hydref, yn ceisio galluogi dinasyddion a'u gofalwyr anffurfiol i gael gwell mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.

Yr hyn y mae angen ei wella:

7.5 Roedd amserlenni asesiadau a chymorth therapi galwedigaethol yn faes y nodwyd bod angen ei wella yn ystod ein harolygiad gwerthuso perfformiad blaenorol yn 2020. Er gwaethaf enghreifftiau o ymyriadau therapi galwedigaethol effeithiol, mae oedi sylweddol wrth ddarparu asesiadau ac addasiadau weithiau ac mae'r ddarpariaeth hon yn groes i'r agenda ataliol ehangach. Gwelsom sut y mae gan y tîm ail-alluogi restr aros a'i bod yn orlawn. Mae mynediad cyfyngedig hefyd at opsiynau cymunedol ar gyfer pobl sydd angen mwy o gymorth fel 'gwelyau cam i fyny', gan fod y rhain yn cael eu defnyddio ar gyfer pobl na allant gael cymorth yn eu cartrefi eu hunain gyda phecynnau gofal cartref. Rhaid i uwch-reolwyr sicrhau bod rhestrau aros yn cael eu lleihau a bod model darparu cynaliadwy yn cael ei ymgorffori i gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol.

7.6 Mae ôl-groniad o adolygiadau blynyddol o anghenion pobl, sy'n golygu efallai na fydd eu hanghenion newidiol yn cael sylw. Rhaid i'r awdurdod lleol wella prydlondeb adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth gan ei fod yn colli cyfle i sicrhau ei hun bod pobl yn cael y gofal a chymorth cywir ar yr adeg gywir.

7.7 Gall diffyg adolygu amserol arwain at gynnydd yn anghenion pobl a chymorth mwy dwys yn ddiweddarach. Darllenasom am rywun yn cysylltu â'r adran deirgwaith am asesiad ers mis Mawrth ac yn dal i aros am ddyraniad. Roedd oedi gyda'r cyswllt cychwynnol yn thema a nodwyd yn rhai o'r ymatebion i'n harolwg pobl. Clywsom gan uwch-reolwyr fod cynlluniau i ailgynllunio'r gwasanaeth drws ffrynt, gan ganolbwyntio ar atal. Bydd hyn yn cynnwys datblygu rôl aseswyr gofal cymdeithasol i allu ymgymryd â thasgau therapi galwedigaethol lefel isel. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob ymarferwyr sy'n cynnal asesiadau yn meddu ar y sgiliau priodol, wedi'i hyfforddi, ac yn cael cefnogaeth i gynnal asesiadau.

7.8 Mae llawer o'r sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' yn cael eu hysgogi gan yr angen i atgyfeiriadau neu brosesau symud ymlaen yn hytrach nag ystyriaeth wirioneddol o'r hyn sy'n bwysig i'r person. Er enghraifft, mewn un cofnod gofal cymdeithasol, nodwyd bod 'yr hyn sy'n bwysig i mi yw asesiad therapi galwedigaethol', heb fawr o ffocws ar y canlyniad i'w gyflawni. Rhaid cynnwys canlyniad asesiadau ac ystyriaeth o gymhwysedd ym mhob cofnod gofal cymdeithasol, gan gynnwys lle na fydd gwasanaethau statudol yn darparu ar gyfer gofal a chymorth.

8. Egwyddor: Llesiant

Cryfderau:

8.1 Gwelsom enghreifftiau da o ymateb effeithiol ac amserol i adroddiadau diogelu oedolion. Cefnogwyd y farn hon gan bartneriaid allweddol, a ddywedodd wrthym am ddiwylledd, amseroldeb a thryloywder gwaith diogelu oedolion. Clywsom fod yr awdurdod lleol yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella a'i fod bob amser yn barod i weithio mewn partneriaeth, i gefnogi unrhyw gamau diogelu y mae eu hangen. Wrth hyrwyddo diogelwch unigolion, canfuom fod dymuniadau a theimladau pobl yn cael eu cynrychioli'n dda, a chydbwysedd da o wybodaeth a oedd yn canolbwyntio ar brofiadau bywyd person.

8.2 Dywedodd yr ymarferwyr y gwnaethom siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo bod rheolwyr yn cefnogi eu llesiant. Soniasant am newid mewn rheolaeth, a oedd wedi bod yn gadarnhaol, a sut, er gwaethaf y rhestrau aros, mae'r pwysau ynghylch dyraniadau wedi lleddfu, gan arwain at lai o straen ar ymarferwyr. Dywedasant wrthym eu bod oll yn ymwybodol o bwysau'r rhestr aros a'r amser y mae pobl yn aros am gymorth.

8.3 Mae'r awdurdod lleol yn cynnig hyfforddiant gorfodol neu sylfaenol da i weithwyr cymdeithasol, ac anogir dilyniant gyrfa yn frwd. Dylai'r awdurdod lleol ystyried cynnig hyfforddiant gwaith cymdeithasol cymhleth neu arbenigol yn ehangach. Roedd canlyniadau ein harolwg staff yn dangos bod cytundeb cryf y gellir rheoli llwythi gwaith, a bod ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda i gyflawni eu rolau. Clywsom gan ymarferwyr a rheolwyr fel ei gilydd am ymdeimlad o undod yn yr adeilad newydd – mae rhwystrau bellach wedi mynd gan nad yw'r bobl ar wasgar: 'Mae cael pawb yna'n wych.'

Yr hyn y mae angen ei wella:

8.4 Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau yr eir i'r afael â phum elfen allweddol asesuadau, bod canlyniadau pobl yn cael eu nodi, ac yr eir i'r afael â chymhwysedd yn unol â chanllawiau statudol. Dywedodd ymarferwyr wrthym eu bod yn hyderus bod canlyniadau'n cael eu hystyried ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu'n dda yn y cofnodion gofal cymdeithasol a welwyd. Mae diffyg dadansoddi clir neu feddwl beirniadol mewn rhai ymarfer ac nid yw'n darparu rhesymeg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau a chatau gweithredu allweddol. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei hun bod pob ymarferydd yn gweithio yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu'n gyson yn yr asesuadau a'r cynlluniau gofal a chymorth.

8.5 Mae recriwtio therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol profiadol yn parhau i fod yn her i'r awdurdod lleol. Er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y tymor hwy, yn gyffredin â llawer o awdurdodau lleol eraill, mae CBSW yn canolbwyntio ar ddatblygu ei weithlu presennol a chynnig cymwysterau proffesiynol i 'dyfu ei weithlu ei hun'. Rhaid i'r awdurdod sicrhau bod gweithlu digonol, cymwysedig a chymwys ar gael i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

8.6 O'r sampl fach o gofnodion goruchwyllo a adolygwyd yn y gwasanaethau oedolion, mae'r oruchwyliaeth yn ymarferol ac yn canolbwyntio ar dasgau yn hytrach nag yn adfyfyriol. Roedd ffocws i'w groesawu ar ddatblygiad proffesiynol gan ddefnyddio addysg a dysgu proffesiynol parhaus. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau gwelliannau yn ansawdd y goruchwyllo, goruchwyliaeth reolaethol a chefnogaeth.

9. Egwyddor: Partneriaethau

Cryfderau:

9.1 Gwelsom ymarfer aml-asiantaethol da yn canolbwyntio ar weithio ar y cyd gyda gwahanol weithwyr proffesiynol ar lefel weithredol. Mae fforymau amlddisgyblaethol rheolaidd i gynorthwyo penderfyniadau am ymarfer. Lle mae anghenion pobl yn cynyddu, gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd â phartneriaid i ystyried cyllid gofal iechyd parhaus i ddiwallu'r anghenion hyn. Mae cyswllt rheolaidd hefyd â gwasanaethau iechyd meddwl a chydweithio agos â gweithwyr iechyd proffesiynol, yn enwedig therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion, i gynyddu annibyniaeth pobl i'r eithaf.

9.2 Siaradodd darparwyr gwasanaethau gofal cartref oedolion yn gadarnhaol am gael eu cynnwys drwy grwpiau ffocws i drafod ffyrdd o fynd i'r afael â'r heriau o ran recriwtio a chefnogi newid. Dywedodd un darparwr fod yr awdurdod lleol yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel cwmni.

9.3 Clywsom adborth cadarnhaol gan bartneriaid mewn perthynas â'r cymorth a gawsant gan y tîm diogelu oedolion yn ystod ymholiadau ac ymchwiliadau cymhleth. Dywedodd un partner allweddol, 'Mae Wrecsam wedi bod yn gefnogol mewn perthynas â sicrhau ymagwedd symlach mewn prosesau gyda Heddlu Gogledd Cymru a chydweithio ag achosion yn ymwneud â chartrefi gofal a gomisiynwyd.'

Yr hyn y mae angen ei wella:

9.4 Mae rhywfaint o dystiolaeth o ymarferwyr yn datblygu perthynas waith proffesiynol gyda phobl wedi'u hadeiladu ar gydweithrediad a dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n bwysig. Fodd bynnag, mae effaith y rhestrau aros yn ychwanegu her ychwanegol ac yn effeithio'n negyddol ar allu ymarferwyr i feithrin perthynas ag ymddiriedaeth oherwydd pwysau a galw cynyddol.

9.5 Mae gallu llai yr awdurdod lleol i ymateb mewn modd amserol a darparu ymyriadau priodol i gynorthwyo pobl yn effeithio'n sylweddol ar ganlyniadau pobl a gofalwyr. Clywsom gan un partner ei fod yn profi oedi cyn cael cymorth gan weithwyr cymdeithasol a sut nad yw achosion yn cael eu dyrannu mewn modd amserol. Mae gan yr awdurdod lleol ymarferwyr mewn ysbytai sydd wedi ymrwymo i gynorthwyo wardiau i ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn amserol. Fodd bynnag, mae rhyddhau o'r ysbyty yn faes heriol a rhaid i reolwyr barhau i sicrhau bod atgyfeiriadau o'r wardiau yn cael eu gwneud yn amserol, gyda digon o wybodaeth sy'n galluogi ymarferwyr i ymateb mewn modd diogel i anghenion parhaus pobl.

9.6 Er gwaethaf rhai arferion cadarnhaol, mae angen datblygu partneriaethau ar lefelau unigol, gweithredol a strategol ymhellach. Mae bellach yn allweddol i bartneriaid strategol weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r heriau parhaus, yn enwedig archwilio beth arall y gellir ei wneud gyda'u gilydd i leihau nifer y bobl sy'n aros am asesiadau a gwasanaethau. Rhaid i arweinwyr ddod o hyd i atebion i feysydd gwelliant a nodwyd a darparu gwasanaethau mwy di-dor i bobl Wrecsam.

10. Y camau nesaf

10.1 Mae AGC yn disgwyl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ystyried y meysydd a nodwyd i'w gwella a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol.

Methodoleg

11. Gwaith maes

11.1 Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu trwy adolygu profiadau pobl trwy adolygu ac olrhain eu cofnodion gofal cymdeithasol. Adolygwyd dros 60 o gofnodion gofal cymdeithasol gennym, ac olrheiniwyd isafswm o 20.

11.2 Mae'r gwaith o olrhain cofnod gofal cymdeithasol person yn cynnwys cael sgysiau gyda'r person sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol eraill.

11.3 Buom yn cyfweld ag amrywiaeth o weithwyr awdurdod lleol ac asiantaethau partner.

12. Diolchiadau

12.1 Dymuna AGC ddiolch i staff, partneriaid, a phobl a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn.